




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Nodiadau Cyfarwyddyd i Ymgeiswyr am **Uwch Gymrodoriaeth**

Addasiad o Gyfarwyddyd AU Ymlaen



1 Cynnwys

1	CYNNWYS	2
2	CYFLWYNIAD	3
3	FFRAMWAITH SAFONAU PROFFESIYNOL (FFSP) 2011 Y DU	4
3.1	ADDYSG UWCH A CHYMHWYSTR A AR GYFER CYMRODORIAETH	5
4	UWCH GYMRODORIAETH A DISGRIFYDD 3	6
5	CYFARWYDDYD SYDD AR GAEL I'CH CYNORTHWYO Â'CH CAIS	8
6	EICH DISGRIFIAD O YMARFER PROFFESIYNOL	9
6.1	DISGRIFIAD PERSONOL YW EICH DISGRIFIAD O YMARFER PROFFESIYNOL	9
6.2	DATGANIAD O'R CYD-DESTUN	10
6.3	STRWYTHURO EICH DISGRIFIAD ADFYFYRIOL O YMARFER	13
6.4	CYFYNGIAD GEIRIAU'R DISGRIFIAD ADFYFYRIOL O YMARFER	13
6.5	MYFYRIWCH YNGHYLCH EICH YMARFER YN EICH DISGRIFIAD ADFYFYRIOL O YMARFER, O'I DDECHRAU I'W DDIWEDD	14
6.6	CYFEIRIWC H AT Y SYLFAEN O DYSTIOLAETH SY'N LLYWIO EICH YMARFER AC YN SAIL IDDO (D3.V)	14
6.7	CYFRANOGI MEWN GWEITHGARWCH DATBLYGIAD PROFFESIYNOL SY'N YMWNEUD Â CHYFRIFOLDEBAU ADDYSGU, DYSGU AC ASESU (D3.VI)	16
7	TYSTIOLAETH O DDIMENSIYNAU'R FFSP AR LEFEL D3	17
8	SYLWEBAETH ADFYFYRIOL	18
9	DWY ASTUDIAETH ACHOS	20
10	DATGANIADAU CEFNOGI	22
10.1	CYFARWYDDYD I GANOLWYR	22
11	CYFLWYNO EICH CAIS AM UWCH GYMRODORIAETH	24
11.1	Y BROSES I GYFLWYNO CAIS:	24
12	SUT YR ADOLYGIR EICH CAIS?	25
12.1	SUT BYDD ASESWYR YN GWNEUD EU PENDERFYNIAID?	25
12.2	CANLYNIADAU POSIBL ADOLYGIADAU	25
12.3	FAINT FYDD Y BROSES ADOLYGU YN EI BARA?	27
12.4	BETH OS BYDD GENNYF GWESTIYNAU ERAILL?	27

2 Cyflwyniad

Mae'r nodiadau cyfarwyddyd hyn ar gyfer unigolion sy'n dymuno ymgeisio trwy law Cynllun DPP PCDDS ar gyfer Uwch Gymrodoriaeth.

Mae'r ddogfen yn egluro'r gofynion ar gyfer Uwch Gymrodoriaeth ac yn cynnig cyfarwyddyd i'ch cynorthwyo i ddatblygu eich cais.

Trwy ymgeisio i ddod yn Uwch Gymrawd, byddwch yn cael y cyfle i:

- Gael cydnabyddiaeth broffesiynol am eich addysgu ym maes addysg uwch a/neu gymorth ar gyfer arferion dysgu sy'n cael ei gydnabod yn gynyddol gan sefydliadau rhyngwladol
- Nodi a dathlu eich cryfderau a'ch llwyddiannau trwy fyfyrio ar eich profiad
- Meincnodi eich arferion mewn cymhariaeth â safonau proffesiynol a disgwyliadau'r sector
- Dangos eich ymrwymiad i addysgu, dysgu, a phrofiad y myfyrwyr, trwy gyfranogi mewn proses ymarferol sy'n annog ymchwil, myfyrio a datblygiad proffesiynol
- Modelu arferion da ar gyfer aelodau eraill o'r staff a gallu eu hannog a'u cynorthwyo i geisio cydnabyddiaeth am eu gwaith yn y maes hwn
- Cynyddu eich dylanwad a'ch effaith trwy gael cydnabyddiaeth ar y lefel genedlaethol, ac, yn gynyddol, ar y lefel ryngwladol, am eich cyfraniad at addysgu a chynorthwyo eraill i ddysgu yng nghyd-destun addysg uwch

Cyn cychwyn llunio eich cais, rydym yn argymhell y dylech ddefnyddio'r **Offeryn Categoriâu Cymrodoriaethau (FCT)** sy'n cael ei gynnig am ddim gan AU Ymlaen. Dylai ateb y cwestiynau ar-lein am eich gwaith ym meysydd addysgu a dysgu:

- eich helpu i gadarnhau mai Uwch Gymrodoriaeth sy'n fwyaf addas o ran eich ymarfer presennol
- ysgogi eich syniadau am wahanol agweddau o'ch ymarfer wrth i chi gynllunio eich cais.

3 Fframwaith Safonau Proffesiynol (FfSP) 2011 y DU

Mae **Fframwaith Safonau Proffesiynol (FfSP) 2011 y DU ar gyfer addysgu a chynorthwyo dysgu mewn addysg uwch** yn rhoi disgrifiad cyffredinol o brif agweddau'r rôl a gyflawnir gan weithwyr proffesiynol sy'n addysgu a/neu'n cynorthwyo dysgu yn amgylchedd addysg uwch. Ysgrifennwyd y fframwaith o safbwynt yr ymarferydd a gall unigolion a sefydliadau ei ddefnyddio i feincnodi rolau addysgu a chynorthwyo dysgu ym maes addysg uwch.

Mae gan y FfSP ddwy elfen: **Dimensiynau a Disgrifyddion**.

- Mae **Dimensiynau'r Fframwaith** (t3, FfSP) yn set o ddatganiadau sy'n nodi'r canlynol:
- Pum **Maes Gweithgarwch** y byddwch yn ymgymryd â hwy wrth addysgu a/neu gynorthwyo dysgu ym maes addysg uwch;
- Chwe agwedd **Gwybodaeth Graidd** y mae arnoch eu hangen i gyflawni eich gweithgareddau dysgu ac addysgu ar y lefel briodol ym maes addysg uwch;
- Pedwar **Gwerth Proffesiynol** a ddylai lywio a bod yn sail i'ch ymarfer addysgu a/neu gynorthwyo dysgu.

Mae **Disgrifyddion y FfSP (FfSP, t4-7)** yn set o ddatganiadau (a elwir yn 'feini prawf' y Disgrifyddion) sy'n disgrifio nodweddion allweddol rhywun sy'n gallu dangos tystiolaeth o bedwar categori eang o rolau addysgu a chynorthwyo dysgu nodweddiadol ym maes addysg uwch.

Mae AU ymlaen yn rhedeg y **cynllun Cymrodoriaethau** ac mae ei gymrodoriaethau yn cyd-fynd â Disgrifyddion y FfSP fel a ganlyn:

- Mae Disgrifydd 1 (D1) yn cyd-fynd â rôl Cymrawd Cyswllt
- Mae Disgrifydd 2 (D2) yn cyd-fynd â rôl Cymrawd
- Mae Disgrifydd 3 (D3) yn cyd-fynd â rôl Uwch Gymrawd
- Mae Disgrifydd 4 (D4) yn cyd-fynd â rôl Prif Gymrawd

Gall unigolyn sy'n addysgu a/neu'n cynorthwyo dysgu gael cydnabyddiaeth gan AU Ymlaen yn dibynnu ar eu hymarfer proffesiynol a'u profiad ar un o bedair lefel y categorïau cymrodoriaethau. Mae'r ddogfen gyfarwyddyd hon yn canolbwyntio ar **Uwch Gymrodoriaeth (Disgrifydd 3)**.

3.1 Addysg Uwch a chymhwysra ar gyfer Cymrodoriaeth

Mae'r FfSP yn disgrifio'r safonau proffesiynol ar gyfer **addysg uwch**. Mae'n **rhaid** i'r holl brofiad a'r dystiolaeth a gynhwysir yn eich cais ymwneud ag ymarfer addysgu a/neu gynorthwyo dysgu yn gysylltiedig â darpariaeth addysg uwch, e.e.:

- lefel 4 neu'n uwch yn y **Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch (FHEQ)** yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, neu **gyfwerth**;
- lefel 7 neu'n uwch yn **Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban (SCQF)** yn yr Alban ar y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Sefydliadau Addysg Uwch (FQHEIS) neu **gyfwerth**;
- y cylch cyntaf neu'n uwch na hynny yn **Fframwaith Cymwysterau Ardal Addysg Uwch Ewrop** (QF-EHEA);
- lefel 5 neu'n uwch yn **Fframwaith Cymwysterau Awstralia (AQF)** neu **gyfwerth**;
- lefel 5 neu'n uwch yn **Fframwaith Cymwysterau Seland Newydd** neu **gyfwerth**;
- fframweithiau addysgu uwch cyfwerth eraill;
- gall gweithgarwch sy'n ymwneud â chynorthwyo myfyrwyr mewn cyd-destun Addysg Uwch gael ei ystyried fel dystiolaeth sy'n gyfwerth â'r fframweithiau addysg uwch uchod, os yw'r myfyriwr neu'r myfyrwyr wedi cofrestru ar Gymhwyster Addysg Uwch;
- gall darparu gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus heb eu hachredu ar gyfer staff academiaidd a chynorthwyo dysgu hefyd gael ei ystyried yn dystiolaeth sy'n gyfwerth â'r fframweithiau addysg uwch.

Wrth ddiffinio beth yw addysgu a dysgu mewn AU mewn cyd-destunau rhyngwladol gwahanol, er mwyn pennu cymhwysra ar gyfer Cymrodoriaeth, mae AU Ymlaen yn defnyddio gwybodaeth **NARIC** (Canolfan Genedlaethol Gwybodaeth am Gydabyddiaethau) y DU ynghylch fframweithiau addysg a chymwysterau rhyngwladol. Ystyrir y bydd rhaglenni yn rhai AU at ddibenion cymhwysra staff sy'n addysgu a chynorthwyo dysgu ar y rhaglen yn gymwys am Gymrodoriaeth os ydynt yn rhan anhepgor o raglen a ddiffinnit fel un Addysg Uwch yng nghyd-destun gwlad yr astudiaethau. Mae'r diffiniad o'r hyn sy'n gyfystyr ag AU wedi'i ddiffinio ymhellach ar gyfer staff yn **y DU ac Awstraliasia**. Os ydych yn ansicr a yw'r enghreifftiau o ymarfer yn eich cais yn cyflawni'r gofynion uchod o ran cymhwysra, cysylltwch â'r Swyddfa Academiaidd trwy e-bostio HEApplications@uwtsd.ac.uk

4 Uwch Gymrodoriaeth a Disgrifydd 3

Trwy ymgeisio i fod yn Uwch Gymrodor, byddwch yn dangos fod gennych ddealltwriaeth drylwyr o ddulliau effeithiol o addysgu a chynorthwyo dysgu fel cyfraniad allweddol at addysg o ansawdd uchel i fyfyrwyr.

Fel yr eglurir uchod, dyfernir Uwch Gymrodoriaeth i weithwyr proffesiynol addysgu a dysgu ym maes addysg uwch (AU) a all ddangos eu bod yn ateb gofynion disgrifydd 3 (D3). Bydd angen i chi gyfeirio'n rheolaidd at y FfSP (gweler Adran 2) wrth i chi lunio eich cais a nodi cysylltiadau rhwng eich ymarfer, Dimensiynau **penodol** y FfSP a Disgrifydd 3 (**FfSP**, t6).

I gyflawni Uwch Gymrodoriaeth, bydd angen i chi ddangos tystiolaeth bod eich ymarfer addysgu neu gynorthwyo dysgu yn ateb gofynion saith mae prawf **Disgrifydd 3 (D3)**, sef:

D3.I	Ymgysylltu'n llwyddiannus ar draws pob un o'r pum Maes Gweithgarwch
D3.II	Gwybodaeth briodol ar draws holl agweddau'r Wybodaeth Graidd a dealltwriaeth o hynny
D3.III	Ymrwymiad i'r holl Werthoedd Proffesiynol
D3.IV	Ymgysylltu'n llwyddiannus ag arferion addysgu priodol sy'n ymwneud â'r Meysydd Gweithgarwch
D3.V	Ymgorffori ymchwil yn ymwneud â phynciau ac addysgeg a/neu ysgolheictod yn y gweithgareddau uchod yn llwyddiannus, fel rhan o ddull integredig o ymdrin ag ymarfer academaidd
D3.VI	Ymgysylltu'n llwyddiannus â datblygiad proffesiynol parhaus mewn perthynas ag addysgu, dysgu ac asesu, a lle bo hynny'n briodol, arferion proffesiynol cysylltiedig
D3.VII	Cydllynu, cynorthwyo, rheoli a neu fentora eraill yn llwyddiannus (boed yn unigolion neu/a thimau) mwyn perthynas ag addysgu a dysgu

Ar y cyfan, Uwch Gymrodoriaeth yw'r categori Cymrodoriaeth addas ar gyfer unigolion sy'n gallu dangos tystiolaeth o **effeithiolrwydd parhaus** mewn perthynas ag addysgu a dysgu, yn ymgorffori, er enghraifft, **trefnu, arwain a/neu reoli agweddau penodol ar ddarpariaeth addysgu a dysgu**. Mae unigolion o'r fath yn debygol o fod yn aelodau o dimau academaidd sefydledig neu'n eu harwain. Yn gyffredinol, mae'r rhai sy'n debygol o allu ateb gofynion Disgrifydd 3 (D3) yn cynnwys:

- Staff priodol sy'n gallu profi effaith a dylanwad trwy gyfrwng (er enghraifft) cyfrifoldeb am arwain, rheoli neu drefnu rhaglenni, pynciau a/neu feysydd disgyblaethau;
- Mentoriaid pynciau a staff profiadol sy'n cynorthwyo'r rhai sydd newydd gychwyn addysgu;
- Staff profiadol sydd â chyfrifoldebau cynghori ynghylch addysgu a dysgu ar lefel adran neu'n ehangach mewn sefydliad

[Cyn ymgeisio i'r Cynllun DPP i gael Cydnabyddiaeth gan yr Academi Addysg Uwch, mae'n rhaid i chi gwblhau rhaglen hyfforddiant y Brifysgol ar FfSP y DU, yn cynnwys gweithdy briffio gorfodol a chlustnodi mentor. Diben y gweithdy briffio a chlustnodi mentor yw cynnig cymorth i chi i lunio eich cais. Bydd y mentor a glustnodir i chi eisoes wedi ennill statws cymrodor sydd naill ai'n gyfwerth â'r categori yr ydych chi'n bwriadu ymgeisio amdano neu'n](#)

uwch na hynny. Byddant wedi cyflawni'r broses hon eu hunain, ac felly byddant yn gallu deall yr ymrwymiad i addysgu, dysgu a chymorth effeithiol i fyfyrwyr yr ydych yn ei amlygu trwy fynd ati i gyfranogi yn y broses hon. Bydd eich mentor yn gallu eich cynorthwyo chi â'r broses ymgeisio, yn cynnwys darllen drafft o'ch cais a chynnig adborth yn ei gylch.

5 Cyfarwyddyd sydd ar gael i'ch cynorthwyo â'ch cais

Mae eich cais am Uwch Gymrodoriaeth yn cynnwys **dwyrain**:

- **Disgrifiad ysgrifenedig o Ymarfer Proffesiynol:** Disgrifiad Adfyfyriol o'r Ymarfer sy'n cynnwys sylwebaeth adfyfyriol a dwyrain Astudiaeth Achos (gweler Adranau 6-9)
- **Datganiadau Cefnogi gan ddau ganolwr** (gweler Adran 10)

Dylid darllen y ddogfen cyfarwyddyd ar gyfer ymgeiswyr am Uwch Gymrodoriaeth a'i defnyddio ar y cyd â ddogfennau cyfarwyddyd eraill; mae'r rhain ar gael trwy ddilyn y dolenni isod:

- **Fframwaith Safonau Proffesiynol (FfSP) y DU** (PSF) ar gyfer addysgu a chynorthwyo dysgu ym maes addysg uwch (gweler Adran 3);
- **Dogfennau cyfarwyddyd ynghylch Dimensiynau'r Fframwaith:** cyfres o ddogfennau cyfarwyddyd sydd wedi'u hysgrifennu i ddiwallu anghenion unigolion sy'n ymdrin â Dimensiynau'r FfSP mewn cyd-destunau gwahanol. Mae'r dogfennau cyfarwyddyd hyn yn cynnig enghreifftiau o'r gwahanol ddulliau y gallai unigolion i ddefnyddio i ddangos tystiolaeth i brofi eu bod yn ymgysylltu â Dimensiynau'r FfSP fel sy'n briodol i bob Disgrifiad yn y FfSP (gweler Adran 3). Dylai'r cyfarwyddyd eich helpu i amlygu cysylltiadau ystyrlon rhwng eich ymarfer eich hun a Dimensiynau amrywiol y FfSP.
 - Dimensiynau'r Fframwaith
 - Dimensiynau'r Fframwaith: staff sydd â rolau cynorthwyo dysgu
 - Dimensiynau'r Fframwaith: goruchwylwyr myfyrwyr doethuriaethau
 - Dimensiynau'r Fframwaith: addysg uwch mewn colegau
 - Dimensiynau'r Fframwaith: cerddoriaeth
 - Dimensiynau'r Fframwaith: Lens ddigidol ar FfSP y DU

Rydym yn argymhell y dylech ddarllen y fersiwn neu'r fersiynau sy'n fwyaf priodol i'ch cyd-destun proffesiynol a defnyddio'r cyfarwyddyd i'ch helpu i gynllunio pa dystiolaeth ynghylch eich ymarfer y gallech ei gynnwys yn eich cais, i ddangos ble mae'r ymarfer hwn yn cyd-fynd â'r Dimensiynau gwahanol.

Templed Cais am Uwch Gymrodoriaeth; defnyddiwch y templed hwn (dogfen Word) i anfon eich cais at y Swyddfa Academaidd yn HEApplications@uwt.ac.uk. Mae templed y Cais am Uwch Gymrodoriaeth hefyd yn eich galluogi i rannu fersiwn terfynol eich cais â'ch canolwyr. Mae'r Templed ar gael ar Moodle (Cymrodoriaeth AU Ymlaen)

6 Eich Disgrifiad o Ymarfer Proffesiynol

Mae Uwch Gymrodoriaeth yn seiliedig ar ateb gofynion Disgrifydd 3 (D3) y PSF, a'ch Disgrifiad o Ymarfer Proffesiynol yw 'asgwrn cefn' eich cais. Mae'r Disgrifiad o Ymarfer Proffesiynol yn cynnwys Datganiad o Gyd-destun (gweler Adran 6.2), a Disgrifiad Adfyfyriol o'r Ymarfer, sy'n cynnwys sylwebaeth adfyfyriol a dwy Astudiaeth Achos.

Mae eich **Datganiad o Gyd-destun** yn cynnig crynodeb byr o'ch rolau, eich cyfrifoldebau a'ch profiad proffesiynol ym maes addysg uwch, a dylai eich **Disgrifiad Adfyfyriol o'r Ymarfer** gynnig tystiolaeth i brofi bod eich ymarfer proffesiynol yn ateb gofynion **Disgrifydd 3** y FfSP.

Mae sawl math o addysg uwch a cheir amrywio sylweddol o ran y rolau gwahanol a gyflawnir gan weithwyr proffesiynol addysg uwch, er enghraifft, o ran profiad, eu cefndir yn y ddisgyblaeth, rôl eu swydd, cyd-destun eu sefydliad ac ati. Mae eich Disgrifiad o Ymarfer Proffesiynol yn ddisgrifiad personol a dylid canolbwyntio drwyddo draw ar eich ymarfer proffesiynol. Sicrhewch y bydd yn ddisgrifiad personol o'ch ymarfer penodol, unigol a nodedig. Bydd eich Datganiadau Cefnogi yn cadarnhau bod cynnwys eich Disgrifiad o Ymarfer Proffesiynol yn adlewyrchiad dilys o'ch ymarfer (gweler Adran 10).

Mae'n bwysig cofio y dylech ganolbwyntio ar ddangos tystiolaeth o'ch ymarfer effeithiol hyd yn hyn yn eich cais. Gallech gyfeirio'n gwyno at gynlluniau at y dyfodol fel rhan o nodi beth sydd wedi llwyddo ac unrhyw newidiadau yr ydych yn bwriadu eu gwneud yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'ch cais gynnwys tystiolaeth sy'n cadarnhau bod eich ymarfer presennol a diweddar yn ateb gofynion Disgrifydd 3, a chaiff ei asesu ar y sail honno.

Yn eich **Disgrifiad Adfyfyriol o Ymarfer**, dylech gynnwys manylion sail resymegol briodol i gyfiawnhau eich dulliau a dangos tystiolaeth i gadarnhau llwyddiant ac effeithiolrwydd eich ymarfer addysgu a/neu gynorthwyo dysgu. Dylai eich Disgrifiad Adfyfyriol o Ymarfer fod yn seiliedig ar enghreifftiau go iawn o'ch ymarfer a dylai esbonio **beth** yr ydych yn ei wneud, **pam/sut** yr ydych yn gwneud hynny felly a **sut yr ydych yn gwybod** fod hyn yn **effeithiol**.

Bydd ysgrifennu gan egluro 'pam' wnaethoch chi ddewis pob dull yn caniatáu i chi gynnwys y 'sylfaen o dystiolaeth' sy'n llywio eich ymarfer ac sy'n sail iddo yn eich Disgrifiad Adfyfyriol o Ymarfer (gweler Adran 6.6). Mae angen i chi hefyd gynnwys manylion ynghylch sut mae'r gweithgarwch datblygu proffesiynol rydych chi wedi'i wneud wedi dylanwadu ar eich ymarfer personol (gweler Adran 6.7).

Cynhwyswch enghreifftiau **dethol** o'ch ymarfer yn eich Disgrifiad Adfyfyriol o Ymarfer i sicrhau eu bod yn gwbl berthnasol i'ch 'hawliad' am Uwch Gymrodoriaeth. Mae ansawdd yr enghreifftiau o dystiolaeth y byddwch yn eu cyflwyno yn bwysicach o lawer na nifer yr enghreifftiau. Dylai'r enghreifftiau ddeillio o **ymarfer presennol a diweddar** (yn ystod y 3-5 mlynedd ddiwethaf) a dylent ymwneud ag addysgu a/neu gynorthwyo dysgu ym maes addysg uwch. Os byddwch yn myfyrio ynghylch unrhyw ymarfer proffesiynol hanesyddol fel rhan o'ch tystiolaeth, cofiwch roi sylw i sut mae hyn bellach yn effeithio ar eich ymarfer proffesiynol chi neu ymarfer proffesiynol eraill ac ar y cyd-destun addysgu a dysgu ehangach.

6.1 Disgrifiad Personol yw eich Disgrifiad o Ymarfer Proffesiynol

Mae eich cais yn hawliad am Uwch Gymrodoriaeth, ac fel y cyfryw, dylai gynnwys sail resymegol briodol i gyfiawnhau'r dewisiadau a wnaed ac unrhyw dystiolaeth o lwyddiant,

dylanwad ac effaith o ran addysgu a/neu gynorthwyo dysgu. Bydd eich holl dystiolaeth yn seiliedig ar enghreifftiau go iawn o ymarfer sy'n cael eu dylanwadu ar weithgarwch ysgolheigaidd ym maes addysgu a dysgu. Nid yw Uwch Gymrodoriaeth yn gysylltiedig â hyd eich gwasanaeth, ond yn hytrach, â chwmpas ac ystod eich effaith a'ch dylanwad ar arferion addysgu a dysgu cydweithwyr.

Adolygir eich cais gan ddau asesydd profiadol ac mae'n ofynnol i chi ddangos i'r aseswyr hyn bod sail resymegol eglur i'ch dull o weithio a'r dewisiadau y byddwch yn eu gwneud yn eich ymarfer.

Ysgrifennwch gan ddefnyddio'r person cyntaf (defnyddiwch 'i/fi') i sicrhau y bydd yr hyn yr ydych chi wedi'i wneud ac yn ei wneud yn eglur. Ceisiwch osgoi trafod addysgu yn gyffredinol neu mewn modd haniaethol, oherwydd bydd hyn yn golygu fod eich cais yn rhoi llai o bwyslais arnoch chi a'ch ymarfer proffesiynol, ac ni wnaiff helpu â'ch 'hawliad' personol mewn cymhariaeth â Disgrifydd 3. Os ydych yn dymuno cynnwys gwaith a wnaethoch chi fel rhan o dîm neu ar y cyd â chydweithwyr, bydd angen i esbonio beth oedd eich cyfraniad personol.

Bydd yn rhaid i chi gyflwyno eich cais **yn Gymraeg neu yn Saesneg**.

Sylwch **na fyddwn** yn derbyn diagramau, lluniau, hyperddolenni nac unrhyw ddogfennau eraill neu atodiadau megis *curriculum vitae* neu grynodedau.

6.2 Datganiad o'r Cyd-destun

Y **Datganiad o'r Cyd-destun** (hyd at 300 gair) yw rhan gyntaf eich Disgrifiad o Ymarfer Proffesiynol, a dylech gyflwyno eich hun **yn gryno a disgrifio** eich rôl/rolau a'ch cyfrifoldebau o ran addysgu a/neu gynorthwyo dysgu ym maes addysg uwch. Bydd y wybodaeth yn eich Datganiad o'r Cyd-destun yn helpu adolygwyr i ddeall natur eich gwaith a'r cyd-destun yr ydych yn ymarfer ynddo, cyn iddynt ystyried y dystiolaeth y byddwch wedi'i chynnwys yn eich Disgrifiad Adfyfyriol o Ymarfer mewn cymhariaeth â Disgrifydd 3 y FfSP. Mae'r adran hon yn cynnwys **cefndir** eich Datganiad o'r Cyd-destun ac ni chaiff ei 'hasesu' mewn cymhariaeth â Disgrifydd 3.

Dylai eich Datganiad o'r Cyd-destun gynnwys **hyd at 300 o eiriau** a dylai:

- Roi crynodeb **byr** o'ch profiad o addysgu a/neu gynorthwyo dysgu, yn cynnwys cyd-destun presennol eich gwaith, eich rôl bresennol a'ch cyfrifoldebau presennol o ran addysgu a/neu gynorthwyo dysgu. Dywedwch beth yw'r math o sefydliad(au) rydych yn gweithio iddo/iddynt a'r lleoliad, oherwydd bydd hyn yn eich helpu i ddisgrifio cyd-destun eich gwaith, ond sicrhewch fod hyn yn gryno ac yn berthnasol i'ch rôl. Peidiwch â chynnwys manylion am hanes a bri'r sefydliad(au), oherwydd mae eich Disgrifiad o Ymarfer Proffesiynol yn ymwneud â chi a'ch ymarfer;
- **Nodwch** y myfyrwyr/cydweithwyr yr ydych yn cydweithio â hwy; er enghraifft, lefel astudiaethau'r myfyrwyr (e.e. blwydd astudio, uwchraddedig/israddedig ac ati), rhaglen(ni)/uned(au) a astudir, disgyblaeth neu faes arbenigol y gwaith, nifer y dysgwyr a'r mathau o ddysgwyr ac ati. Yn achos Uwch Gymrodoriaeth, efallai bydd eich gwaith gyda myfyrwyr yn fwy anuniongyrchol, oherwydd efallai eich bod yn cydweithio'n agosach â chydweithwyr/timau/sefydliadau allanol/cyrff proffesiynol ac ati. Os felly, nodwch yr agweddau hyn ar eich gwaith.
- **Disgrifiwch** eich rôl neu eich rolau presennol a rhai diweddar yn ymwneud â chydlynu, cynorthwyo, goruchwyllo, rheoli a/neu fentora eraill mewn perthynas ag addysgu a dysgu (Disgrifydd 3.VII).
- Canolbwyntiwch ar eich **ymarfer presennol neu ddiweddar**. Dylech allu dangos eich dylanwad parhaus mewn cymhariaeth â Disgrifydd 3 dros y 3-5 mlynedd ddiwethaf.
- Cofiwch fod eich cais am Uwch Gymrodoriaeth yn seiliedig ar eich **ymarfer ym maes**

addysg uwch. Os ydych chi hefyd yn gwneud gwaith addysgu neu gynorthwyo dysgu oddi allan i addysg uwch, ni ddylech gyflwyno hyn yn eich cais (cyfeiriwch at Adran 2 i gael rhagor o wybodaeth am gymhwysra i gael Uwch Gymrodoriaeth).

Nid yw'r Datganiad o'r Cyd-destun yn cael ei asesu fel rhan o'ch cais, felly nid oes angen i chi gysylltu'r wybodaeth hon â'r FfSP. Ni fydd yr adolygwyr yn ystyried y wybodaeth yn y Datganiad o'r Cyd-destun pan fyddant yn asesu eich cais, felly **ni ddylid** ei ddefnyddio i gynnig gwybodaeth ategol a fuasai'n ychwanegu tystiolaeth o ymarfer effeithiol at eich 'hawliad' am Uwch Gymrodoriaeth yn eich Disgrifiad Adfyfyriol o Ymarfer (h.y. ni ellir ei ddefnyddio i gynyddu cyfyngiad geiriau eich Disgrifiad Adfyfyriol o Ymarfer).

Mae'r ddwy enghraifft isod yn dangos beth yw'r mathau o wybodaeth sy'n ddefnyddiol i'w cynnwys yn y Datganiad o'r Cyd-destun i gyflwyno cefndir eich ymarfer:

Enghraifft 1

Yr wyf yn Brif Ddarlithydd yng Ngholeg Celf Y ac yn Arweinydd Pwnc yn rhaglenni'r Radd Meistr mewn Dylunio Graffeg a Chyfathrebu Gweledol ar gyfer uwchraddedigion. Mae gan y Coleg 2,500 o fyfyrwyr, 150 aelod o staff amser llawn, darlithwyr sesiynol ac artistiaid gwadd.

Yr wyf yn addysgu ym maes Addysg Uwch ers 10 mlynedd, ac roeddwn yn ddylunydd graffeg cyn hynny. Byddaf yn dal yn gwneud gwaith ar fy liwt fy hun, ac mae hynny'n cyfoethogi fy addysgu.

Mae gennyf radd PhD mewn Cyfathrebu Gweledol; cychwynnais astudio ym maes addysg uwch fel dysgwr aeddfed trwy gyfrwng Rhaglen Sylfaen ac astudiais fel myfyriwr israddedig rhan amser.

Nid oes gennyf unrhyw gyfrifoldebau ffurfiol rheolwr llinell dros staff yn fy Ysgol, ond fel rhan o fy rôl Arweinydd Pwnc, yr wyf yn cydlynu addysgu pedwar aelod o'r staff academiaidd, tri darlithydd sesiynol a dau dechnegydd sy'n cynorthwyo â'r rhaglenni. Yr wyf yn arwain y gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm. Yr wyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Addysgu a Dysgu'r Coleg, ac yr wyf wedi gweithio fel rhan o nifer o flaengaredd addysgu a dysgu traws-sefydliadol.

Yr wyf yn ymchwilydd gweithgar ac yr wyf wedi cyhoeddi gwaith mewn sawl cyfnodolyn ynghylch addysgu ym maes fy nisgyblaeth. Yr wyf yn aelod o rwydwaith pwnc cenedlaethol sy'n cynnwys 20 o sefydliadau addysg uwch, ac yr wyf wedi arwain prosiect addysgu cydweithredol, rhywbeth yr wyf yn ei drafod yn astudiaeth achos 1.

Cwblheais fy Nhystysgrif i Raddedigion mewn Dysgu ac Addysgu yn AU bum mlynedd yn ôl, ac ers hynny, yr wyf wedi mentora dau aelod o'r staff oedd yn ymgymryd â'r rhaglen. Yr wyf yn rhoi sylw i fy rôl mentora yn astudiaeth achos 2.

Byddaf fel arfer yn goruchwyllo 2 neu 3 myfyriwr PhD a hyd at bedwar myfyriwr israddedig sy'n ymgymryd â phrosiectau'r flwyddyn olaf.

Yr wyf yn addysgu ar chwech o fodiwlau rhaglenni'r Graddau Meistr ac yr wyf yn dal i addysgu rhywfaint o gyrsiau i israddedigion (2-3 modiwl bob blwyddyn 2).

Enghraifft 2:

Yr wyf yn Rheolwr Sgiliau Dysgu yn un o'r prif brifysgolion ymchwil (25,000 o fyfyrwyr). Yr wyf yn gweithio ym maes datblygu sgiliau ers 8 mlynedd ac yn rheoli tîm sy'n cynnwys chwe thiwor arall erbyn hyn. Mae ein tîm yn cynorthwyo myfyrwyr israddedig ac uwchraddedig i ddatblygu ystod o sgiliau i'w cynorthwyo i astudio ar raglenni academiaidd. Un o feysydd mawr ein gwaith yw'r cymorth i fyfyrwyr rhyngwladol sy'n astudio trwy gyfrwng eu hail iaith.

Datblygais system mentora cymheiriaid i fyfyrwyr, ac erbyn hyn, yr wyf yn rheoli'r system honno, sy'n rhedeg ers pum mlynedd erbyn hyn. Ei diben yw cynorthwyo myfyrwyr rhyngwladol i gynefino â bywyd yn y brifysgol, gan hybu pontio i'r flwyddyn gyntaf a chynnydd. Byddaf yn cydweithio'n agos ag Undeb y Myfyrwyr i ddethol a hyfforddi mentoriaid.

Byddaf hefyd yn cydweithio â Phenaethiaid Ysgolion i ddarparu cyfleoedd datblygu proffesiynol i staff academiaidd yn ymwneud ag addysgu myfyrwyr rhyngwladol a llunio cwricwla cynhwysol.

Yn ogystal ag arwain sesiynau datblygu staff, yr wyf wedi datblygu amrywiaeth o adnoddau ar-lein i gynorthwyo cydweithwyr.

Byddaf yn addysgu grwpiau o 25-30 o fyfyrwyr mewn gweithdai ac yn cynnal tiwtorialau ar gyfer grwpiau bychan. Yr wyf yn ymchwilydd gweithgar a byddaf yn cyhoeddi fy ngwaith yn rheolaidd. Oddi allan i'r Brifysgol, yr wyf yn gadeirydd Pwyllgor Datblygiad Proffesiynol Cymdeithas XX; byddaf yn cynllunio'r cylch gweithgareddau DPP blynyddol, yn trefnu'r Symposiwm blynyddol ac yn cynnal sesiynau DPP wyneb yn wyneb ac ar-lein ar gyfer yr aelodau.

6.3 Strwythuro eich Disgrifiad Adfyfyriol o Ymarfer

Bellach, mae'r **Disgrifiad Adfyfyriol o Ymarfer** wedi'i rannu yn ddwy adran:

- **sylwebaeth adfyfyriol** ynghylch eich rolau, eich cyfrifoldebau a'ch profiad proffesiynol ym maes addysg uwch;
- **dwylustiaeth achos** yn disgrifio'r cyfraniadau yr ydych chi wedi'u gwneud at ddysgu ac addysgu ym maes addysg uwch sy'n dangos sut yr ydych chi wedi trefnu, arwain a/neu reoli agweddau penodol ar ddarpariaethau addysgu a dysgu.

Yn ogystal ag ymdrin â phob un o'r pum Maes Gweithgarwch, er mwyn ateb gofynion Disgrifiydd 3, mae angen i chi sicrhau hefyd eich bod yn cynnwys tystiolaeth ym mhob rhan o'r Disgrifiad Adfyfyriol o Ymarfer i brofi eich bod yn defnyddio pob un o chwe agwedd **Gwybodaeth Graidd** a bod y pedwar **Gwerth Proffesiynol** yn llywio eich ymarfer.

Un o nodweddion diffiniol allweddol Uwch Gymrodoriaeth yw **eich dylanwad a'ch effaith** ar arferion addysgu a dysgu eich cymheiriaid (Disgrifiydd 3.VII) Mae'n bwysig sicrhau eich bod yn rhoi sylw i holl Ddimensiynau FfSP y Deyrnas Unedig, ond bydd y dystiolaeth y byddwch yn ei chyflwyno yn wahanol iawn i'r dystiolaeth a gyflwynir i ymgeiswyr am Gymrodoriaethau ar lefel Disgrifiydd 2. Hanfod Uwch Gymrodoriaeth yw effeithio a dylanwadu ar addysgu a dysgu **y tu hwnt i lefel y myfyriwr**. Bydd angen i chi ddangos eich bod yn dylanwadu ar brofiad dysgu'r myfyrwyr trwy ddylanwadu ar arferion dysgu ac addysgu cydweithwyr. Yn y cyd-destun hwn, gallai eich 'dysgwyr' fod yn gydweithwyr yn hytrach na myfyrwyr.

Wrth i chi gyflwyno tystiolaeth ynghylch y Dimensiynau, dylech chi bwysleisio ble mae hyn yn gymwys. Un ffordd o wneud hyn yw cyfeirio at y Dimensiwn yn eich testun, e.e. (V2) neu (K1) ac ati. Cofiwch nodi cysylltiadau â'r **Dimensiynau mwyaf perthnasol** ym mhob achos (e.e. un neu ddau yr ydych chi wedi ymdrin yn ystyrion â hwy yn yr enghraifft benodol honno o ymarfer) a pheidiwch â llunio rhestrau maith o gysylltiadau â Dimensiynau (e.e. K1, K2, K4, V1, V2, V3) oherwydd ni wnaiff hyn ddangos eich bod yn ymdrin yn *ystyrlon* â'r Dimensiynau.

Wrth benderfynu pa enghreifftiau o ymarfer y byddwch yn eu defnyddio, bydd yn bwysig peidio â dibynnu ar yr un enghreifftiau, oherwydd bydd hyn yn annhebygol o ddarparu tystiolaeth *ddigonol* i gadarnhau fod eich ymarfer yn ateb holl ofynion Disgrifiydd 3. Fodd bynnag, dewiswch eich enghreifftiau yn ofalus oherwydd bydd gormod o enghreifftiau yn cyfyngu ar eich gallu i amlygu eich ymarfer llwyddiannus ac effeithiol er mwyn cyflwyno 'hawliad' cryf mewn cymhariaeth â Disgrifiydd 3.

Ni fydd y cyfyngiad geiriau yn caniatáu i chi ysgrifennu am bopeth y byddwch yn ei wneud ac mae'n rhaid i chi ddethol yr enghreifftiau y byddwch yn dewis ysgrifennu amdanynt yn ofalus iawn. Dewiswch yr enghreifftiau sydd orau i amlygu eich gwaith, ac sydd hefyd yn caniatáu i chi ddangos eich bod yn deall ymarfer academaidd integredig yn drylwyr ac yn dylanwadu ac yn effeithio'n barhaus ar arferion eich cymheiriaid, gan ddangos tystiolaeth o elfennau penodol y Meysydd Gweithgarwch, y Wybodaeth Graidd a'r Gwerthoedd Proffesiynol gofynnol (gweler Adran 5.4 isod ynghylch cyfyngiad geiriau'r Disgrifiad Adfyfyriol o Ymarfer).

6.4 Cyfyngiad geiriau'r Disgrifiad Adfyfyriol o Ymarfer

Cyfanswm cyfyngiad geiriau Disgrifiad Adfyfyriol o Ymarfer i ymgeisio am Uwch Gymrodoriaeth yw **6,000 o eiriau ynghyd â dyfyniadau (500 o eiriau); uchafswm o 6,500 o eiriau**. Sylwer y bydd y Swyddfa Academaidd yn gwirio cyfanswm y geiriau fel rhan o'r broses o gyflwyno cais.

Er y gallwch ddewis sut i rannu cyfanswm y cyfyngiad geiriau ar draws eich sylwebaeth adfyfyriol a'ch dwy astudiaeth achos, yr ydym yn argymhell y dylech chi geisio defnyddio tua 3,000 o eiriau yn y sylwebaeth adfyfyriol ac oddeutu 1,500 ym mhob astudiaeth achos.

6.5 Myfyriwch ynghylch eich ymarfer yn eich Disgrifiad Adfyfyriol o Ymarfer, o'i ddechrau i'w ddiwedd

I ddatblygu eich Disgrifiad Adfyfyriol o Ymarfer, bydd angen i chi nodi/casglu ac ystyried tystiolaeth o'ch ymarfer, gan gnoi cil ar eich effaith ar ddysgu'r myfyrwyr. Wrth ysgrifennu eich Disgrifiad Adfyfyriol o Ymarfer, dylech chi osgoi disgrifiadau maith o'r pethau yr ydych yn eu 'gwneud' a bod yn adfyfyriol er mwyn sicrhau y bydd y cynnwys yn eglur o ran beth yr ydych yn ei wneud, sut yr ydych yn gwneud hynny a pham, sut yr ydych yn gwybod fod hyn yn effeithiol a beth fyddwch yn ei wneud yn y dyfodol o ganlyniad i hynny.

Un **model adfyfyriol** y gallech ei ddefnyddio yn eich Disgrifiad Adfyfyriol o Ymarfer o'i ddechrau i'w ddiwedd fuasai egluro'r canlynol yn glir:

- **Beth** yr ydych yn ei wneud (dewiswch enghreifftiau i'w cynnwys yn ofalus iawn – gweler Adran 6.3);
- **Pam** ydych chi'n gwneud hynny fel hun; esboniwch eich ymagwedd yn eglur a chyfiawnhewch eich dewisiadau a'ch penderfyniadau (e.e. defnyddio Gwerthoedd Proffesiynol i lywio cynllunio, defnyddio sylfaen briodol o dystiolaeth i lywio eich ymagwedd ac ati);
- **Sut** yr ydych chi'n gweithredu'r dull hwn (e.e. yn cynnwys unrhyw heriau penodol neu anawsterau ymarferol yr ydych chi wedi'u datrys);
- Sut byddwch chi'n **gwerthuso effeithiolrwydd** eich gwaith (eglw'r beth yw'r mathau o 'wybodaeth' y byddwch yn eu defnyddio i adolygu a gwerthuso effaith hyn ar ymarfer eich cydweithwyr a/neu brofiadau dysgu myfyrwyr);
- **Pa newidiadau** yr ydych wedi'u gwneud yn sgil gwerthuso eich effeithiolrwydd;
- Sut ydych yn sicrhau eich bod yn **parhau i ddatblygu a gwella** eich ymarfer, er enghraifft, cyfrannu at adolygu gwaith cymheiriaid, datblygu eich sylfaen o dystiolaeth ac ati.

6.6 Cyfeiriwch at y sylfaen o dystiolaeth sy'n llywio eich ymarfer ac yn sail iddo (D3.V)

Bydd angen i chi gyfeirio at arferion proffesiynol perthnasol, ymchwil ym maes y pwnc ac addysgeg a/neu ysgolheictod yn eich cais (D3.V) i egluro sut/pam yr ydych wedi dewis y dulliau yr ydych wedi'u gweithredu. Bydd eich dull o ddangos tystiolaeth i gadarnhau hyn yn dibynnu ar y cyd-destun yr ydych yn gweithio ynddo, natur y pwnc, y ddisgyblaeth neu'r proffesiwn, sut ydych chi'n dylanwadu ar ymarfer eich cymheiriaid, cyd-destun/disgwyliadau'r sefydliad ble'r ydych yn gweithio ac ati.

Byddwch yn ysgrifennu am eich ymagweddau at arferion addysgu a dysgu yn eich Disgrifiad Adfyfyriol o Ymarfer, felly dylech ddyfynnu/cyfeirio at y 'sylfaen o dystiolaeth' yr ydych yn ei defnyddio i lywio eich ymarfer pan fo hynny'n briodol yn eich Disgrifiad Adfyfyriol o Ymarfer. Er enghraifft, gallech ddyfynnu llenyddiaeth sy'n gysylltiedig â theori addysgeg neu arweinyddiaeth academiaidd mewn papurau a gyhoeddwyd mewn cyfnodolion (e.e. Smith, 2019), cyhoeddiadau, llyfrau, gwefannau ac ati, neu gallech gyfeirio at dystiolaeth gan gyrrff

proffesiynol, diwydiant neu eich disgyblaeth (eich sylfaen o 'wybodaeth broffesiynol). Pan fyddwch yn cynnwys dyfyniad, bydd yn rhaid nodi'n glir sut mae hynny wedi dylanwadu ar eich ymarfer (h.y. dylai'r dyfyniad fod â phwmpas penodol). Er enghraifft, gallech egluro sut y gwnaeth testun penodol neu erthygl benodol mewn cyfnodolyn eich ysbrydoli i gynllunio i ailddatblygu eich cwricwlwm mewn ffordd benodol.

Os byddwch yn cynnwys dyfyniad yn nhestun eich Disgrifiad Adfyfyriol o Ymarfer, bydd angen i chi gynnwys y cyfeiriad llawn mewn rhestr ar ddiwedd y Disgrifiad Adfyfyriol o Ymarfer. Mae'r cyfyngiad geiriau yn cynnwys hyd at 500 o eiriau yn eich rhestr o gyfeiriadau. Gofynnwn i chi gynnwys rhestr lawn o'r holl gyfeiriadau y byddwch yn eu dyfynnu'n uniongyrchol fel y bydd adolygwyr yn gwybod pa ffynonellau sydd wedi dylanwadu ar eich ymagwedd at ddysgu ac addysgu ac i roi cydnabyddiaeth briodol i awdur/sefydliad sydd wedi ysbrydoli unrhyw elfennau o'ch ymarfer. Defnyddiwch ddyfyniadau yn y testun (h.y. ni dderbynnir troednodiadau).

Yn y detholiad byr hwn o sylwebaeth adfyfyriol cais am Uwch Gymrodoriaeth, gweir sut mae'r ymgeisydd **yn defnyddiol eu sylfaen o dystiolaeth i lywio eu hymrfer (D.V)**:

Yn fy rôl fel Deon Cyswllt yr Adran Ffiseg, sylwais ar ostyngiad yng nghyfraddau llwyddo arholiadau israddedig ar gyfer myfyrwyr blwyddyn gyntaf Awgrymai dadansoddi pellach y gallai diffyg dealltwriaeth o gysyniadau theori fod yn ffactor yn hynny. Roedd gennyf ddiddordeb yn y llenyddiaeth ynghylch y defnydd o ddysgu gwrthdro i wella profiad myfyrwyr ar raglenni Ffiseg, gan ganiatáu neilltuo mwy o amser yn ystod sesiynau i weithredu cysyniadau allweddol yn hytrach na chyflwyno theori (Deslauriers, Schelew a Wieman, 2011). Ar ôl dod i wybod am theori Cymunedau Ymarfer (Wenger, 1998) yn ystod fy nghwrs MA mewn Arweinyddiaeth Academiaidd, penderfynais arwain cymuned ymarfer i roi cyfle i gydweithwyr a oedd yn rhannu diddordeb mewn dysgu gwrthdro i ddod ynghyd i gydweithredu a datblygu dulliau arloesol o ddefnyddio dysgu gwrthdro yn eu cyrsiau (D3.vii), ac felly, roedd hynny'n cefnogi safbwyntiau Wenger ynghylch dysgu lleoledig.

Roedd adborth da gan fyfyrwyr mewn grwpiau ffocws bychan a data yn nodi lefelau da o gyfranogiad mewn gweithgareddau cyn sesiynau, ac roedd hynny'n nodi y dylid hyrwyddo'r dull yn ehangach (K5). Felly, cynorthwyais gydweithwyr a oedd wedi defnyddio dulliau addysgu traddodiadol yn flaenorol i'w galluogi i gynnwys elfennau o ddysgu gwrthdro yn eu haddysgu (A5, V3, A4). Mae cyfraddau llwyddo arholiadau myfyrwyr blwyddyn gyntaf hefyd wedi (+3%) yn y gyfadran drwyddi draw.

Rhestr o gyfeiriadau ar gyfer y detholiad:

Deslauriers, L., Schelew, E., a Wieman, C. (2011). Improved learning in a large-enrolment physics class. *Science*, 332(6031), 862-864.

Wenger, E. 1998. *Communities of practice: learning, meaning and identity*. Cambridge University Press.

6.7 Cyfranogi mewn gweithgarwch datblygiad proffesiynol sy'n ymwneud â chyfrifoldebau addysgu, dysgu ac asesu (D3.VI)

Mae cyfranogi mewn gweithgarwch dysgu proffesiynol rheolaidd yn rhan anhepgor o'r rôl fel addysgwr. Dylai eich Disgrifiad Adfyfyriol o Ymarfer adlewyrchu eich cyfranogiad mewn gweithgarwch datblygiad proffesiynol rheolaidd sy'n berthnasol i'ch rôl a'ch cyfrifoldebau mewn perthynas ag addysgu a dysgu ac esbonio sut mae'r gwersi yr ydych wedi'u dysgu yn sgil y datblygiad hwn wedi cael eu defnyddio yn eich ymarfer neu wedi'i wella. Mae tystiolaeth o'ch cyfranogiad mewn gweithgareddau datblygiad proffesiynol yn ofynnol i ymdrin â D3.VI a Dimensiynau V3 ac A5 (er enghraifft).

Efallai y byddwch yn cyfranogi mewn digwyddiadau ffurfiol megis cyrsiau, gweithdai, symposia a chynadleddau, ond gall gweithgareddau 'datblygiad proffesiynol' gynnwys cyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol hefyd. Er enghraifft, dysgu gan eich cydweithwyr (e.e. adolygu gwaith cymheiriad/mentora/datblygu'r cwricwlwm/blogiau ac ati), gan fyfyrwyr (myfyrwyr fel partneriaid gwaith/grwpiau ffocws/ymchwil weithredol ac ati), gan ddamcaniaethau ysgolheigaidd, profiad yn y proffesiwn/diwydiant ac ati.

Enghraifft i ddangos sut gallech chi gyflwyno tystiolaeth i gadarnhau eich cyfranogiad mewn gweithgarwch datblygiad proffesiynol (D3.VI)

Fel Pennaeth Adran fe wnaethoch sefydlu gweithgor (A1, Dylunio ymyriad) i ystyried arferion asesu a rhoi adborth yn yr adran (A3) ar ôl cael rhywfaint o adborth negyddol gan fyfyrwyr. Eich bwriad oedd sefydlu dull gwell o ymdrin â chynlluniau asesu'r adan. I ddechrau, fe wnaethoch ymchwilio i ganfod gwybodaeth am arferion gorau presennol o ran asesu yn y ddisgyblaeth, ac fe aethoch chi i ddwy gynhadledd ynghylch asesu a rhoi adborth. Fe wnaethoch chi hefyd ystyried technegau arwain gwahanol y gallech eu defnyddio i berswadio a chymell cydweithwyr i newid eu harferion asesu. Yna, byddwch yn egluro'r dull y gwnaethoch ei ddefnyddio a'r effaith ar arferion eich cydweithwyr a phrofiadau dysgu myfyrwyr yn sgil hynny.

7 Tystiolaeth o Ddimensiynau'r FfSP ar lefel D3

Bydd y Dimensiynau yn **gyd-ddibynnol ac wedi'u hintegreiddio** yn eich ymarfer proffesiynol. Yn syml, y Meysydd Gweithgarwch yw eich gwaith, y Wybodaeth Graidd yw'r hyn y mae angen i chi ei wybod er mwyn cyflawni'r gwaith hwn yn effeithiol, a dylai'r Gwerthoedd Proffesiynol lywio eich gwaith a bod yn sail iddo.

Yn y 6,000 o eiriau yn eich Disgrifiad Adfyfyriol o Ymarfer, yn ogystal â chyflwyno tystiolaeth ar gyfer pob un o'r pum Maes Gweithgaredd, mae angen i chi sicrhau eich bod yn cyflwyno tystiolaeth i gadarnhau pob un o chwe elfen Gwybodaeth Graidd a phob un o'r pedwar Gwerth Proffesiynol, fel sy'n ofynnol yn achos Disgrifiydd 3.

Mae ceisiadau i am Uwch Gymrodoriaeth yn wahanol i rai am Gymrodoriaeth (Disgrifiydd 2) oherwydd mae'n ofynnol i chi ddangos sut mae eich ymarfer yn **dylanwadu ac yn effeithio ar** ymarfer pobl eraill trwy gyfrwng eich arweinyddiaeth addysgol. Bydd y dystiolaeth o'ch cyfranogiad yn Dimensiynau'r FfSP yn wahanol a bydd angen i chi ddangos sut ydych chi'n ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb am ddatblygiad addysgol a rheoli addysgu, a chynorthwyo eraill â'u hymarfer addysgu.

Cyfeiriwch yn rheolaidd at ddogfen **Dimensiynau'r Fframwaith** gan AU Ymlaen oherwydd dylai'r cyfarwyddyd hwn fod yn ddefnyddiol iawn i'ch cynorthwyo i nodi cysylltiadau priodol rhwng eich ymarfer a Dimensiynau'r FfSP ac i nodi tystiolaeth berthnasol i'w chynnwys yn eich cais am Uwch Gymrodoriaeth.. Gan ystyried **natur gymhleth ac integreiddiol ymarfer proffesiynol** ar gyfer Uwch Gymrawd, dylech osgoi dull mapio undonog neu 'dicio blychau' i sicrhau yr ymdrinnir yn llawn â'r Dimensiynau.

8 Sylwebaeth adfyfyriol

Wrth baratoi eich sylwebaeth adfyfyriol, rhwch sylw penodol i'r addysg, yr hyfforddiant, y gyflogaeth, y rolau a'r profiadau sydd wedi cyfrannu at eich datblygiad proffesiynol fel athro/athrawes, mentor, hwylusydd dysgu ac arweinydd academiaidd. Gallech gynnwys gweithgareddau anffurfiol, boed yn rhai unigol, cydweithredol neu fel rhan o dimau, sydd, yn eich tyb chi, wedi dylanwadu'n sylweddol ar eich ymarfer academiaidd a/neu ar ymarfer pobl eraill. Amlygwch y dylanwadau pwysicaf ar eich datblygiad eich hun, gan roi sylw i sut ydych wedi cyflawni eich galluoedd proffesiynol yn raddol a sut ydych chi ac eraill wedi elwa o'r dysgu a'r broses o ddysgu a datblygu parhaus sydd dan sylw.

Gallech fyfrio ynghylch y canlynol:

- **Rolau, cyfrifoldebau a phrofiad** yn ymwneud ag addysgu a chynorthwyo dysg;
- Meysydd ymchwil, ysgolheictod a/neu ymarfer proffesiynol
 - cyhoeddiadau a/neu gyflwyniadau perthnasol;
 - ymgorffori ymchwil/ ysgolheictod a/neu ymarfer proffesiynol mewn addysgu a chynorthwyo dysgu;
 - cysylltiadau â chyrff proffesiynol neu gymunedau ehangach
 - cyfranogiad mewn blaengareddau addysgu a dysgu
 - prosiectau a ariannwyd gan eich sefydliad/ar y lefel genedlaethol;
 - ymchwiliadau neu ddyfarniadau ar raddfa fechan neu ganolig;
 - gwaith ar y cyd â chyrff proffesiynol;
 - datblygu a/neu fabwysiadu themâu dysgu ac addysgu, er enghraifft, cydwladoli;
 - cyflogadwyedd, asesu ac adborth, cadw, dysgu hyblyg, addysg ar gyfer cynaliadwyedd;
 - lledaenu arbenigedd ynghylch addysgu a dysgu;
 - dylanwad eich gweithgarwch dysgu proffesiynol parhaus ar eich ymarfer.
- Cydnabyddiaeth a gwobrau
 - gwobrau addysgu, cymrodoriaethau, gwobrau am arloesedd gan sefydliadau;
 - cydnabyddiaeth gan gyrff proffesiynol.
- Cydweithredu ag eraill
 - rolau cynghori, cynorthwyo a chydlynu ym meysydd addysgu a chynorthwyo dysgu;
 - rolau arwain a rheoli;
 - cydweithio â chydweithwyr i ddatblygu arferion cynhwysol a sicrhau fod y dysgu yn hygyrch i bob myfyriwr;
 - cyfrannu at gydweithrediadau academiaidd â Sefydliad(au) Addysg Uwch partner;
- Gweithgarwch addysgol a datblygu staff
 - cynghori neu gymell staff ynghylch arferion addysgeg gwahanol neu arferion datblygu dysgu a chymorth;
 - rolau mentora fel rhan o raglenni datblygiad proffesiynol ar gyfer staff newydd a dibrofiad;
 - gweithdai a seminarau ynghylch dysgu ac addysgu;
 - cyhoeddiadau/dogfennau cysylltiedig;
 - goruchwylio datblygiad cynorthwywyr addysgu a myfyrwyr ymchwil fel rhan o'u rolau cynorthwyo dysgu neu addysgu;
 - creu a rhannu adnoddau a deunyddiau DPP neu ddysgu perthnasol, yn fewnol ac yn allanol;
- Rolau arwain, rheoli a threfnu yng nghyd-destun y sefydliad neu gyd-destun ehangach addysg

uwch

- pwyllgorau addysgu a dysgu/gwella ansawdd;
- prosesau cynllunio, cymeradwyo ac adolygu rhaglenni;
- rolau a chyfrifoldebau sicrhau ansawdd;
- cyfrannu at ddatblygu strategaeth yn ymwneud â chynorthwyo dysgu ac addysgu;
- arwain prosiectau/blaengareddau sydd wedi cyfrannu at wella profiadau dysgu myfyrwyr neu'r cymorth sydd ar gael iddynt.

Nid yw hon yn rhestr hollgynhwysol. Mae dogfennau **Dimensiynau Fframwaith** AU Ymlaen yn cynnwys llawer iawn o enghreifftiau gwahanol o'r mathau o ymarfer y bydd ymgeiswyr am Uwch Gymrodoriaeth yn eu defnyddio'n nodweddiadol mewn ceisiadau..

9 Dwy Astudiaeth Achos

Yn y rhan hon o'ch cais, darparwch ddisgrifiadau adfyfyriol o ddau gyfraniad neu brofiad penodol sydd:

- wedi dylanwadu'n sylweddol ar gydlynw, cynorthwyo, rheoli a neu fentora eraill (boed yn unigolion neu/a thimau) mwyn perthynas ag addysgu a dysgu
- yn amlygu eich effeithiolrwydd parhaus mewn perthynas â dysgu ac addysgu ac yn dangos eich bod yn cyflawni meini prawf Uwch Gymrodoriaeth

Defnyddiwch y ddwy astudiaeth achos i ymdrin ag agweddau gwahanol o Ddisgrifydd 3, gan roi sylw i'ch gwaith yn trefnu, yn arwain a/neu'n rheoli agweddau penodol ar ddarpariaeth dysgu ac addysgu/ Gallech gynnwys gweithgareddau anffurfiol, boed yn rhai unigol, cydweithredol neu fel rhan o dimau, sydd wedi dylanwadu'n sylweddol ar eich ymarfer academaidd a/neu ar ymarfer pobl eraill. Dylech bwysleisio eich effeithiolrwydd mewn perthynas â dysgu ac addysgu, a dylech gynnwys gwybodaeth am sut yr ydych wedi arwain, trefnu neu reoli agweddau penodol ar ddarpariaeth dysgu ac addysgu. Dylai o leiaf un o'ch astudiaethau achos roi sylw i amgylchiadau pan wnaethoch chi gydweithio ag eraill gan ddefnyddio eich sgiliau, eich gwybodaeth a'ch ymwybyddiaeth i arwain, rheoli neu drefnu rhaglenni, pynciau a/neu feysydd disgyblaethau.

Dylech amlygu ymagwedd integredig ac adfyfyriol amlwg at ymarfer academaidd sy'n ymgorffori ymchwil, ysgolheictod a/neu ymarfer proffesiynol.

Wrth ddewis themâu eich Astudiaethau Achos, gallech ddewis canolbwyntio ar agweddau penodol ar eich gwaith. Dyma rai awgrymiadau i ysgogi syniadau:

Datblygu gwaith gwella ansawdd

- eich dulliau o ryngweithio ag eraill i sicrhau fod arferion addysgu, dysgu ac asesu yn cyd-fynd yn briodol;
- sut ydych yn sicrhau bod profiadau dysgu myfyrwyr yng nghyd-destun eich cyfrifoldebau yn cael eu cyfoethogi gan ymchwil ddisgyblaethol ac addysgeg, ysgolheictod ac ymarfer proffesiynol (gennych chi a gan bobl eraill);
- sut yr ydych wedi meithrin ymagweddau dynamig at addysgu a dysgu trwy greadigrwydd ac arloesedd.

Cynorthwyo cydweithwyr eraill

- sut yr ydych wedi cynorthwyo cydweithwyr eraill i wella eu harferion;
- enghreifftiau penodol i ddangos sut ydych chi wedi gwella ymarfer academaidd trwy gydlynw neu reoli eraill;
- eich rolau mewn prosiectau a blaengareddau dysgu ac addysgu mewn adrannau, sefydliadau neu yng nghyd-destun ehangach AU;
- datblygu, adolygu ac ail-ddilysu cyrsiau a rhaglenni.

Ymgysylltu parhaus â gweithgarwch addysgol a datblygu staff

- gweithgareddau datblygu staff (boed yn anffurfiol) yr ydych wedi'u hwyluso sy'n gwella galluoedd eich cydweithwyr i ateb gofynion FfSP y Deyrnas Unedig;

- sut mae eich cyfraniadau wedi hybu profiadau dysgu myfyrwyr trwy gyfrwng datblygiad proffesiynol staff yr ydych yn dylanwadu arnynt ac yn rhoi arweiniad iddynt, e.e. trwy gyfrwng trefniadau mentora anffurfiol neu ffurfiol.
- sut ydych chi wedi lledaenu eich gwybodaeth a'ch sgiliau ynghylch addysgu a chynorthwyo dysgu ymhlith cynulleidfaoedd yn eich sefydliad ac oddi allan iddo.

Gwerthuso ymarfer academiaidd

- camau yr ydych wedi'u cymryd i ddatblygu eich ymarfer eich hun a sut yr ydych wedi defnyddio eich profiad eich hun i alluogi eraill i adfyfrio ynghylch eu hymarfer eu hunain a'i feirniadu;
- sut byddwch yn cefnogi, yn annog ac yn gweithredu prosesau gwerthuso y bwriedir iddynt wella profiadau dysgu myfyrwyr.

10 Datganiadau Cefnogi

Bydd yn rhaid i'ch cais am Uwch Gymrodoriaeth gael ei gefnogi gan Ddatganiadau Cefnogi gan **ddau ganolwr**. Defnyddir y rhain i gadarnhau fod eich cais yn cyfleu darlun teg a chywir o'ch ymarfer ym maes Addysg Uwch.

Bydd y **ddau Ddatganiad Cefnogi** yn cefnogi eich hawliad ac ni fyddant yn cyfrannu at ganlyniad y broses adolygu, h.y. bydd angen i'r adolygwyr weld tystiolaeth ddigonol i gadarnhau ymarfer effeithiol yn eich Disgrifiad o Ymarfer Proffesiynol i gyflawni gofyniad Disgrifydd 3 cyn y gallant ddyfarnu Uwch Gymrodoriaeth.

Dylai eich dau ganolwr fod yn cydweithio'n agos â chi (neu dylent fod wedi cydweithio â chi yn ddiweddar) a dylent fod a gwybodaeth o lygad y ffynnon am eich ymarfer fe y gallant gynnig sylwadau ar eich cais a'i gefnogi. Sylwer y dylai Datganiadau Cefnogi adlewyrchu perthnasoedd proffesiynol, h.y. ni ddylent gael eu hysgrifennu gan aelodau o'ch teulu ac ni ddylent fod yn seiliedig ar unrhyw gyfeillgarwch personol.

Disgwylir i ganolwyr fod â phrofiad presennol neu ddiweddar o weithio ym maes Addysg Uwch, ac fel arfer, byddant wedi cyflawni un o blith pedwar categori Cymrodoriaethau, ond nid yw hyn yn hanfodol. **Mae angen i bob canolwr fod yn gyfarwydd â'r FfSP.**

Mae'n bwysig i chi ddarllen Datganiadau Cefnogol eich canolwyr oherwydd gallent gyfeirio at agweddau ar eich ymarfer a allai gryfhau eich cais. Os felly, gallech ddiwygio rhannau o'ch cais a gofyn i'ch canolwyr gadarnhau eu bod yn fodlon cefnogi'r newidiadau hynny cyn i chi gyflwyno eich cais. Pan fyddwch wedi cael eich Datganiadau Cefnogi, cadwch hwy ar gyfrifiadur fel y byddant yn barod i'w lanlwytho.

10.1 Cyfarwyddyd i ganolwyr

Rhowch gopïau o'r **Cyfarwyddyd ynghylch Datganiad Cefnogi Cais am Uwch Gymrodoriaeth a'r templed o Ddatganiad Cefnogi**. Mae'r ddwy ddogfen ar gael ar Moodle (modiwl Cymrodoriaethau AU Ymlaen).

Yn eu Datganiad Cefnogi, bydd angen i bob canolwr gadarnhau eich bod wedi cyfleu eich ymarfer yn gywir ac yn deg. Felly, bydd angen i'ch canolwyr **gael copi o fersiwn terfynol eich cais** fel y gallant lunio geirda effeithiol. Yn eu Datganiad Cefnogi, bydd pob canolwr yn cadarnhau eich bod chi, yn eu barn broffesiynol hwy, yn amlygu gofynion Disgrifydd 3 ac y dylid dyfarnu Uwch Gymrodoriaeth i chi.

Gofynnir i ganolwyr gadarnhau mae hwy eu hunain sydd wedi ysgrifennu'r datganiad cefnogi a bod y wybodaeth a ddarperir ganddynt wedi'i hysgrifennu'n benodol ynghylch eich cais. Gofynnir iddynt gadw eu Datganiadau Cefnogi ar ffurf **ffeil PDF** a'u hanfon atoch chi fel y gallwch eu lanlwytho gyda'ch cais.

Ceidw'r Swyddfa Academaidd yr hawl i gysylltu â'ch canolwyr i ofyn am eglurhad, felly sicrhewch fod y ddau Ddatganiad Cefnogi yn cynnwys manylion cysylltu y gellir eu cadarnhau (e.e. enw, teitl eu swydd, eu cyfeiriad e-bost, enw eu sefydliad). Fel rhan o'i phroses sicrhau ansawdd barhaus, bydd y Swyddfa Academaidd yn mynd ati'n rheolaidd i wirio geirdaon i sicrhau bod pob un ohonynt yn ddilys, a defnyddir adolygiad testunol yn Turnitin i wneud hynny. Yn ogystal â defnyddio meddalwedd atal llên-ladrad (Turnitin), cysylltir â rhai canolwyr i gadarnhau fod y Datganiad Cefnogi sydd wedi'i gyflwyno gan yr ymgeisydd yr un fath â'r datganiad y maent hwy wedi'i baratoi a'i lunio. Os bydd amheuaeth ynghylch cywirdeb

proffesiynol y Datganiad Cefnogi, ni dderbynnir y datganiad ac efallai bydd y cais yn aflwyddiannus yn sgil hynny.

11 Cyflwyno eich cais am Uwch Gymrodoriaeth

Ar ôl cwblhau eich cais gan ddefnyddio'r templed o gais am Uwch Gymrodoriaeth ac ar ôl cael y ddau Ddatganiad Cefnogi, byddwch yn barod i gyflwyno eich cais.

Cyflwynir eich cais i'r Swyddfa Academaidd yn gyntaf, **trwy gyfrwng y ddolen briodol ar gyfer cyflwyno cais ar Moodle (modiwl Cymrodoriaethau AU Ymlaen).**

Gwirir cyfanswm geiriau eich cais. Os bydd cyfanswm y geiriau yn fwy na'r hyn a ganiateir, dychwelir eich cais atoch chi ac ni chaiff ei ystyried.

11.1Y broses i gyflwyno cais:

1. Pan fydd gennych holl ddogfennau eich cais ac wedi trefnu taliad ac yn barod i fwrw ymlaen, dilynwch y camau hyn i gyflwyno eich cais i'w adolygu:
 - 1.1 Cyflwynwch eich cais a'ch dogfennau cefnogi i'r Swyddfa Academaidd trwy gyfrwng y ddolen briodol ar gyfer cyflwyno cais ar Moodle (modiwl Cymrodoriaethau AU Ymlaen).

12 Sut yr adolygir eich cais?

Adolygir eich cais gan ddau aseswr annibynnol (sef 'Panel Cydnabyddiaethau'r Academi Addysgu Uwch') fel rhan o broses adolygiad gan gymheiriaid. Caiff sampl o geisiadau o bob rownd eu safoni gan Gyngorydd Allanol.

Dewisir aseswyr ar sail eu profiad o adolygiadau allanol a'u dealltwriaeth o'r FfSP, a'i gwybodaeth am addysgu a dysgu ym maes addysg uwch a'u profiad o hynny. Mae pwll aseswyr y Swyddfa Academaidd yn cynnwys arbenigwyr ar addysg ac ymarferwyr sy'n gweithio mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau ym mhob rhan o'r Brifysgol.

Bydd ein haseswyr yn cyfranogi mewn cylch datblygiad proffesiynol blynyddol a gweithgareddau safoni rheolaidd i sicrhau y byddant yn adolygu eich cais ar sail eu gwybodaeth gyfoes am ofynion y FfSP a chymrodoriaethau a'u dealltwriaeth o hynny.

12.1 Sut bydd aseswyr yn gwneud eu penderfyniad?

Bydd yr aseswyr yn chwilio am dystiolaeth i gadarnhau fod eich ymarfer yn ateb gofynion Disgrifydd 3 yn eich Datganiad Adfyfyriol o Ymarfer drwyddo draw, a byddant yn gwirio bod y ddau Ddatganiad Cefnogi yn cefnogi eich cais yn briodol. Byddant yn asesu eich cais ar sail bob un o feini prawf Disgrifydd 3.

Bydd pob aseswr yn darllen eich cais ac yn defnyddio meini prawf Dangosydd 3 i wneud penderfyniad annibynnol cychwynnol. Yna, bydd y ddau aseswr yn gwneud penderfyniad ar y cyd trwy gonsensws. Os na fydd y ddau aseswr gwreiddiol yn gallu gwneud penderfyniad trwy gonsensws, defnyddir y Cyngorydd Allanol i safoni a chytuno ar ganlyniad.

Darperir **nodiau cyfarwyddyd** a gridiau adolygu ar gyfer ein haseswyr, gan esbonio sut y disgwylir iddynt wneud penderfyniadau proffesiynol ynghylch ceisiadau am Uwch Gymrodoriaethau.

Cyn hysbysu'r ymgeisydd am unrhyw benderfyniad, bydd y Cyngorydd Allanol yn safoni sampl o geisiadau.

12.2 Canlyniadau posibl adolygiadau

Dyfarnu Uwch Gymrodoriaeth

Os bydd y Panel yn penderfynu trwy gonsensws fod eich cais yn ateb gofynion Disgrifydd 3, dyfernir Uwch Gymrodoriaeth i chi. Byddwch yn cael neges e-bost i'ch llongyfarch oddi wrth y Swyddfa Academaidd, a bydd y neges hefyd yn cynnwys esboniad ynghylch sut i lawrlwytho eich tystysgrif Uwch Gymrodoriaeth o'ch cyfrif **MyAdvanceHE**. Bydd gennych chi hawl i ddefnyddio SFHEA ar ôl eich enw hefyd.


Methu

Os penderfynir nad yw eich cais yn cynnwys digon o dystiolaeth ynghylch ateb gofynion Disgrifydd 1, byddwch yn cael adborth gan yr adolygwyr mewn **templed Canlyniad ac Adborth y Panel**. Bydd yr adborth hwn yn nodi pa rai o blith y saith maen prawf y bydd eich cais wedi'u cyflawni ac yn egluro sut ddylid cryfhau eich cais i gyflwyno dystiolaeth ynghylch

gweddill meini prawf Disgrifydd 1.

Byddwch yn cael **un** cyfle i ailgyflwyno eich cais ymhen pedair wythnos, heb godi tâl ychwanegol. Yn yr achos hwn, byddwch yn cael templed i'w ddefnyddio i ailgyflwyno eich cais a gofynnir i chi amlygu/marcio unrhyw newidiadau y byddwch yn eu gwneud i'ch cais gwreiddiol. Ar ôl i chi gyflwyno eich cais diwygiedig, bydd yr un adolygwyr yn gwneud penderfyniad terfynol, a naill ai'n dyfarnu Uwch Gymrodoriaeth neu'n datgan fod angen cyflwyno cais o'r newydd.

Sylwer y buasai angen i unrhyw apêl ymwneud â methiannau o ran dilyn prosesau PCDDS, nid canlyniad yr adolygiad.



* Ar gael unwaith yn unig yn achos cais a gyflwynir i banel newydd

Arg gael ar gyfer ailgyflwyno cais yn unig

12.3 Faint fydd y broses adolygu yn ei bara?

Gellir cyflwyno cais am Uwch Gymrodoriaeth ar un o'r dyddiadau sydd wedi'u pennu i gyflwyno ceisiadau. Fe'ch hysbysir am ganlyniad eich cais ymhen 6 wythnos ar ôl dyddiad cyflwyno'r cais i'r panel.

12.4 Beth os bydd gennyf gwestiynau eraill?

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ychwanegol neu os bydd arnoch angen rhagor o gymorth, e-bostiwch HEApplications@uwtsd.ac.uk i ddechrau a bydd aelod o'n tîm yn gallu eich cynorthwyo chi.

Contact us

fellowship@advance-he.ac.uk

+44 (0)1904 717683 or +44 (0)1904 717664

<https://www.advance-he.ac.uk/fellowship>

   @AdvanceHE

Advance HE enables excellence in higher education, helping it shape its future. Within the UK and globally, Advance HE supports institutions in the areas of excellence in education, transformative leadership, equity and inclusion and effective governance. This is delivered through membership benefits (including accreditation of teaching, equality charters, research, knowledge and resources), programmes and events, Fellowships, awards, consultancy and enhancement services and student surveys.

©2020 Advance HE. All rights reserved.

No part of this document may be reproduced or transmitted in any form or by any means, electronic or mechanical, including photocopying, recording, or any storage and retrieval system without the prior written permission of the copyright owner. It is solely for use by Advance HE's accredited member institutions and direct fellowship applicants. As such, provided that due acknowledgment is given to Advance HE:

1. Advance HE's accredited member institutions are permitted to use and adapt this document solely for the use of their Advance HE accredited provision; and
2. Direct Fellowship applicants may download this document for the purpose of making and submitting an application for Fellowship to Advance HE

Advance HE is a company limited by guarantee registered in England and Wales no. 04931031. Registered as a charity in England and Wales no.1101607. Registered as a charity in Scotland no. SC043946. Advance HE words and logo should not be used without our permission. VAT registered no. GB 152 1219 50

To request copies of this report in large print or in a different format, please contact the Marketing and Communications Team at Advance HE:

+44 (0) 3300 416201 or publications@advance-he.ac.uk

